

# SYMUD YMLAEN

Datblygiadau Newydd

Hydref 2010

Yn y newyddlen hon rhoddir sylw i ddatblygiadau yn y Canolfannau Hwyr Ddyfodiaid ac i ddatblygu'r Gymraeg.

## CAMP TEMA MEWN PUM MIS!

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn Llannerch Aeron fis Mehefin, enillodd un o ddisgyblion Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru unigol i ddysgwyr a hynny bum mis yn unig ar ôl dod i fyw i Gymru!

Daeth Temalangi Dlamini, 14 oed, i Borthmadog i fyw gyda'i theulu, ddechrau Rhagfyr 2009 o Swaziland yn yr Affrig. Ym mis Ionawr, aeth i'r Ganolfan ym Mhorthmadog ar gwrs iaith i ddysgu'r Gymraeg. Canolfan yw hon sy'n cynnig cwrs iaith dwys o wyth wythnos i ddisgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd sy'n ddi-Gymraeg. Dyma'r unig ganolfan iaith yng Nghymru ar gyfer yr oedran uwchradd.

Ar ddiwedd ei chyfnod yn y ganolfan iaith, ysgrifennodd Temalangi gerdd yn mynegi'i theimladau am y profiad o fod yn y ganolfan iaith a'r hyfrydwch o ddysgu'r Gymraeg.

### Diolch yn fawr iawn


Rhodaist gyfle i ni wybod,  
Rhodaist iaith i ni ei chofleidio a'i meddiannu,  
Roedd gen ti'r ffydd i'n harwain,  
A llwyddiant yn abwyd o'n blaen.

Mae dweud diolch yn swnio'n bitw,  
Mae'n gwerthfawrogiad o'r lle hwn yn fawr.  
Wyth wythnos a diwedd y daith,  
A'n braint oedd cael ennill iaith.  
Ymlaen i rannu'r cyfoeth gawsom a wnawn ni  
Gan droi'r diwedd trist yn gyfle newydd sbon.

Temalangi Dlamini



## AR Y TEILS YM MOELFRE



Cafodd disgyblion Canolfan Iaith Moelfre y fraint o wahodd y crochennydd Mr Richard Daniels i'w dosbarth. Prosiect Celf chwe wythnos oedd hwn a oedd yn ddilyniant gwyb i'r gwaith o drafod eu cartrefi a'u pentrefi.



Cafwyd trafodaeth am Gymru. Gweithiodd y disgyblion fel tîm i gynllunio a chreu ugain o deils allan o glai i bortredu'r ddraig goch. Gwelir hwy yn trafod sut i

roi'r teils at ei gilydd i greu'r cyfanwaith.

Wrth sgwrsio am eu trefi a'u pentrefi, edrychwyd yn fanwl ar yr adnoddau naturiol sydd yno e.e. y traethau, coedwigoedd. Cawsant wefr a mwynhad wrth greu teilsen a oedd yn portredu eu hamgylchedd.

Dengys hyn fod dysgu'r Gymraeg yn Y Ganolfan Iaith yn hwyl ac yn digwydd drwy amryw o brofiadau ymarferol.

Cyhoeddwyd gan Gwmni Cynnal ar ran Adrannau Addysg siroedd Ynys Môn a Gwynedd. Nid yw'r golygyddion yn cytuno o angenheidrwydd ag unrhyw farn a fynegir.  
Llinell Gyswilt - 01286 679167



Published by Gwmni Cynnal on behalf of the Education Departments of Gwynedd & Ynys Môn. The editors do not necessarily agree with all points of view.  
Helpline - 01286 679167